- Penderfynu ar ddyddiadau ar gyfer

  (1) cyfarfod i benderfynu ar gais am indemniad pe bai'r Aelod yn cyflwyno un

  (2) dyddiad ar gyfer y gwrandawiad a 2 ddyddiad wrth gefn .

- Penderfynu os dylid cynnal y gwrandawiad yn rhithiol yn unig neu ar ffurf hybrid

*Gofynnir aelodau'r Pwyllgor ystyried ymlaen llaw pryd y byddant ar gael fel bod modd cytuno ar ddyddiadau yn y cyfarfod ei hun. Bydd swyddogion hefyd yn edrych am ddyddiadau a lleoliadau posib ymlaen llaw.

## YR AIL GAM

**Y GWRANDAWIAD LLAWN**

~~9~~7. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu y dylai'r Aelod gael cyfle i gyflwyno sylwadau ar y gŵyn, dilynir y drefn ganlynol:

**Camau Corfforaethol**

8. Os yw'r gŵyn yn erbyn aelod o Gyngor Gwynedd, bydd y Swyddog Monitro yn cysylltu gyda Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor i gynllunio a chyd-gordio unrhyw gamau corfforaethol angenrheidiol wrth i'r broses fynd yn ei blaen. Bydd yn yn cynnwys materion megis paratoi datganiadau, ymateb i ymholiadau, hysbysu aelodau a swyddogion a'r trefniadau angenrheidiol petai'r aelod yn cael ei (g)wahardd. Byddant hefyd yn cytuno ar y trefniadau cyswllt gyda'r Aelod ac unrhyw gefnogaeth sy'n briodol i'w ddarparu gan yr awdurdod. Gwneir hyn hefyd os yw'r adroddiad wedi ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru yn hytrach na'r Pwyllgor.

9. Os yw'r gŵyn yn erbyn aelod o gyngor cymuned/tref yna bydd y Swyddog Monitro yn cysylltu chlerc y cyngor perthnasol i'w hybysu ac i egluro'r broses

**Cyn y Gwrandawiad**

10. Y bwriad yw sicrhau bod y partïon yn ymwybodol o'r holl faterion sy'n berthnasol i'r achos a bod y broses yn deg, tryloyw a diduedd.

11. Ysgrifennir at yr Aelod gan ofyn iddo/iddi gadarnhau'n ysgrifenedig (drwy holiadur – **Atodiad 1**) o fewn 14 diwrnod os yw'n:

26. Bydd yn Swyddog Cynghori yn paratoi Hysbysiad o Benderfyniad ysgrifenedig ac yn ei anfon at y Cadeirydd i'w gytuno a'i arwyddo. Hwn fydd ffurf derfynol y penderfyniad a bydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad a gyhoeddir gan y Pwyllgor ar ôl i'r broses ddod i ben.

27. Anfonnir yr Hysbysiad at yr Aelod (anelir at ei anfon o fewn 5 diwrnod gwaith), drwy ddull fydd yn cadarnhau dyddiad derbyn yr hysbysiad.

28. Hysbysir adrannau perthnasaol y Cyngor o'r hyn sy'n digwydd gan egluro nad yw unrhyw waharaddiad yn dod rym ar unwaith a bod yr amseriad yn ddibynnol ar broses apêl.

**Apelio**

29. Caiff yr Aelod ofyn am ganiatâd i apelio yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor drwy roi hysbysiad ysgrifenedig o fewn 21 diwrnod o dderbyn y penderfyniad ysgrifenedig ffurfiol, i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru yn. Bydd Llywydd y Panel yn penderfynu os dylid caniatáu i'r Aelod apelio ai peidio. Os bydd yr apêl yn mynd yn ei flaen gall y Panel Dyfarnu benderfynu:

- Cymeradwyo unrhyw gosb a osodwyd, neu
- Gyfeirio'r mater yn ôl i'r Pwyllgor gydag argymhelliad bod cosb wahanol yn cael ei gosod; neu,
- Wrth-droi dyfarniad Pwyllgor for yr Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad

30. Ar ôl i'r amser i gyflwyno apêl ddod i ben, neu ar ôl derbyn hysbysiad bod unrhyw broses apêl wedi dod i ben, cysylltir gyda gwasanaethau Democratiaeth a Chyfathrebu'r Cyngor i'w hysbysu. Cymerir y camau angenrheidiol i weithredu unrhyw atal ac i gyfathrebu hynny gyda'r Aelod ac unrhyw un arall fydd angen eu hysbysu

31. Bydd y Pwyllgor yn trefnu fod adroddiad yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu yn unol â gofynion y Rheoliadau. Ar ôl derbyn yr adroddiad, bydd y Swyddog Monitro yn ei gyhoeddi yn unol â gofynion y Rheoliadau.

Ceir crynodeb o'r drefn y gwrandawiad yn **Atodiad 2**

